

Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024-2025

Cyhoeddwyd 24 Mawrth 2026

Cyfnod data yr adroddiad: 1 Awst 2024 hyd 31 Gorffennaf 2025

Cymeradwywyd gan Gyngor Prifysgol Aberystwyth ar 23 Mawrth 2026

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu adborth am yr adroddiad hwn, anfonwch ebost at cydraddoldeb@aber.ac.uk

Gellir darparu'r ddogfen hon mewn amryw fformatau ar gais, e.e. copi papur, Braille, print bras, ac yn y blaen.

Os bydd eisiau'r adroddiad hwn ar fformat o'r fath - i chi neu i rywun rydych yn ei adnabod - cysylltwch â cydraddoldeb@aber.ac.uk

Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024-25

Adran 1: Cyd-destun.....	3
Cyflwyniad	3
Strategaeth Prifysgol Aberystwyth i'r 2030au	4
Adran 2: Dadansoddi'r Data	5
1. Llywodraethu.....	5
2. Data am y staff presennol.....	6
2.1. Staff	6
2.2 Rhyw	6
2.3 Anabledd	8
2.4. Ethnigrwydd	9
2.5. Cenedligrwydd.....	10
2.6. Crefydd neu Gred	11
2.7 Cyfeiriadedd rhywiol.....	11
2.8 Ailbennu rhywedd	12
2.9. Oedran.....	13
2.10 Beichiogrwydd a Mamolaeth.....	14
2.11 Y Gymraeg	15
3. Staff - Denu a Dethol, Gwobrwyo a Chydnabod, a Hyfforddiant	16
3.1 Rhyw yr ymgeiswyr:.....	17
3.2 Ethnigrwydd	18
3.3 Anabledd	20
3.4 Cyfeiriadedd rhywiol.....	21
3.5 Newidiadau mewn Hunaniaeth Rhywedd	21
3.6 Dyrchafiadau Academiaidd.....	22
3.7. Hyfforddiant mewn Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant	22
4. Data am y Myfyrwyr Presennol	22
a. Rhyw	23
b. Ethnigrwydd	25
c. Anabledd.....	25
d. Ailbennu Rhywedd.....	26
e. Cyfeiriadedd Rhywiol	27
f. Myfyrwyr sy'n Tynnu'n ôl	28
5. Cynnydd yn ôl y Cynllun Cydraddoldeb Strategol	29

Adran 1: Cyd-destun

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Gydraddoldeb yn disgrifio'r cynnydd y mae Prifysgol Aberystwyth yn ei wneud o ran cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y gweithle. Nod y Brifysgol yw hybu diwylliant ac amgylchedd sy'n gynhwysol i'w myfyrwyr, ei staff ac i'r gymuned ehangach sy'n defnyddio ei hadnoddau a'i gwasanaethau.

Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio sut mae'r Brifysgol wedi gweithio dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2024-2025) i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r dyletswyddau sy'n benodol i Gymru a ddaeth i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011 ac sy'n berthnasol i Brifysgolion Cymru.

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn ategu deddfwriaeth wrth-wahaniaethu Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n cwmpasu'r naw nodwedd warchodedig ganlynol, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred (gan gynnwys anghred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae angen i awdurdodau cyhoeddus hefyd roi sylw priodol i'r angen i ddileu camwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn rhywun oherwydd eu statws o ran priodas neu bartneriaeth sifil.

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn cynnwys dyletswydd gyffredinol â thri phrif nod a ddisgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid i'r Brifysgol roi sylw priodol i'r angen i:

1. gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
2. hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.
 - i. cael gwared â'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, neu leihau'r anfanteision hynny cymaint â phosib.
 - ii. cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig os yw'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
 - iii. annog pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae niferoedd y bobl hyn sy'n cymryd rhan ynddynt yn anghymesur o isel.
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.
 - i. ymdrin â rhagfarn a hybu cyd-ddealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Ar ben hynny, mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yng Nghymru yn pennu cyfrifoldebau penodol ychwanegol, uwchlaw'r rhai yn Neddf 2010. Daeth y dyletswyddau hyn i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cwmpasu: Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol, Meithrin Cyswllt, asesu effaith, Gwybodaeth am gydraddoldeb, Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau cyflog, Hyfforddiant staff, Caffael, Adroddiadau blynyddol, Cyhoeddi, Dyletswyddau Gweinidogion Cymru (gan gynnwys adolygu a hygyrchedd).

Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i Safonau'r Gymraeg ac mae gennym gamau ychwanegol ar waith i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Strategaeth Prifysgol Aberystwyth i'r 2030au

Yn ystod blwyddyn academiaidd 2024-25, lansiodd y Brifysgol ei Strategaeth i'r 2030au sy'n ailddatgan ein cenhadaeth greiddiol ac yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer ein dyfodol hirdymor.

Nid yw'r Strategaeth i'r 2030au yn sefyll ar wahân i'n gwaith bob dydd - hwn yw'r gwaith rydyn ni i gyd yn ei wneud gyda'n gilydd, bob dydd. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar gydweithio, diben cyffredin ac ymrwymiad i newid bywydau er gwell.

Rydym wedi blaenoriaethu meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt i sicrhau bod y Strategaeth i'r 2030au yn cael ei gwireddu. Mae pob rôl yn y Brifysgol yn cyfrannu at o leiaf un o'r 9 cynllun cydgyssylltiedig hyn.

1. Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr
2. Ymchwil ac Arloesi
3. Denu Myfyrwyr
4. Cyllid
5. Seilwaith
6. Ein Pobl
7. Y Gymraeg
8. Sero Net a'r Amgylchedd
9. Tegwch, Amrywioldeb a Chynhwysiant

Cynllun Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant

Ein nod yw bod yn gymuned sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn lle y teimla pawb eu bod yn cael eu croesawu, eu cynnwys a'u cefnogi, a hynny'n rhydd rhag camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Cymuned lle mae unigolion yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, mewn amgylchedd lle gallant fyw a bod yn unol â'u gwir hunaniaeth a gwireddu eu potensial llawn.

Bydd Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant yn cael eu hymgorffori yn ein diwylliant, ein harweinyddiaeth, ein penderfyniadau a phob agwedd ar fywyd y brifysgol er mwyn creu amgylchedd gwaith a dysgu cynhwysol a chefnogol. Byddwn yn cael ein harwain gan y dystiolaeth ac yn defnyddio data i ddilyn hynt ein cynnydd a'n heffeithiolrwydd, gan gydnabod mai taith barhaus yw CAaCh, sy'n gofyn am adfyfrio a gwella parhaus.

Byddwn yn dysgu o arferion gorau'r sector ac yn ymateb i leisiau ein cymuned.

Blaenoriaethau ac amcanion

Mae'r cynllun Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant yn amlinellu 5 maes blaenoriaeth allweddol sydd wedi'u llunio trwy ymgynghori â'n cymuned, camau gweithredu ymroddedig trwy gynlluniau mewnol presennol megis [Athena Swan](#), y [Siarter Cydraddoldeb Hil](#), a'n hymrwymadau allanol drwy Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru.

1. Meithrin diwylliant ac amgylchedd diogel a chynhwysol
2. Arddel dull a arweinir gan ddata er mwyn deall a monitro ein sefyllfa bresennol o ran tegwch a chynhwysiant.
3. Sicrhau ein bod yn hybu parch, tegwch a chynhwysiant ar draws ein holl weithgareddau, polisïau, a phrosesau, yn yr amgylcheddau corfforol a digidol fel ei gilydd
4. Sicrhau ein bod yn hybu parch, tegwch a chynhwysiant ar draws ein holl weithgareddau

5. Deall lle mae'r bylchau o ran cynnydd academiaidd myfyrwyr a'r canlyniadau a ddyfernir, a datblygu rhaglen waith i ymdrin â'r bylchau hynny.

Adran 2: Dadansoddi'r Data

Tynnir y data am y myfyrwyr a'r staff o gofnodion mewnol y Brifysgol, y datganiadau a anfonir gan y Brifysgol i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), a 'chipluniau' o system yr adrannau Adnoddau Dynol a Chyllid (ABW - Pobl Aber) - gan ddefnyddio'r data o 1 Awst 2024 hyd at 31 Gorffennaf 2025.

Mae'r rhan hon yn cwmpasu pum maes data: [Llywodraethu](#); [Data Staff cyfredol](#); [Staff - Denu a Dethol](#), [Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth, a Hyfforddiant](#); [Data Myfyrwyr cyfredol](#); a [Cynnydd yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028](#)

1. Llywodraethu

Rydym wedi gweld newid cadarnhaol dros y blynyddoedd diwethaf yng nghyfran yr aelodau benywaidd a gwrywaidd ar y Cyngor a'r Senedd, a'u pwyllgorau cysylltiedig. Mae'n braf gweld bod y cyfrannau hyn wedi aros yn gyson ers y cyfnod adrodd diwethaf. Mae camau penodol wedi'u cymryd dros y blynyddoedd diwethaf a byddant yn parhau i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar ein pwyllgorau Llywodraethu. Cymerwyd camau i wella'r data a gesglir ar gyfer Aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgor. Mae prosesau recriwtio diweddar wedi pwysleisio blaenoriaeth y Cyngor i wella amrywioldeb, yn enwedig amrywioldeb ethnig. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Pwyllgorau	2020-21		2021-22		2022-23		2023-24		2024-25	
	Benyw d	Gwryw d	Benyw d	Gwryw d	Benyw d	Gwryw d	Benyw d	Gwryw d	Benyw d	Gwryw d
Y Cyngor	10 (56%)	8 (44%)	10 (56%)	8 (44%)	9 (53%)	8 (47%)	9 (56%)	7 (44%)	11 (61%)	7 (39%)
Senedd	15 (47%)	17 (53%)	15 (48%)	16 (52%)	16 (47%)	18 (53%)	14 (45%)	17 (55%)	17 (43%)	23 (58%)
Y Weithrediaeth	2 (25%)	6 (75%)	2 (25%)	6 (75%)	3 (38%)	5 (62%)	3 (33%)	6 (67%)	3 (33%)	6 (67%)
Y Pwyllgor Diswyddo	4 (80%)	1 (20%)	4 (80%)	1 (20%)	4 (80%)	1 (20%)	4 (80%)	1 (20%)	2 (67%)	1 (33%)
Buddsoddiadau	2 (33%)	4 (67%)	3 (50%)	3 (50%)	3 (50%)	3 (50%)	2 (40%)	3 (60%)	2 (40%)	3 (60%)
Archwilio, Risg a Sicrwydd	4 (80%)	1 (20%)	4 (67%)	2 (33%)	4 (67%)	2 (33%)	1 (25%)	3 (75%)	1 (25%)	3 (75%)
Taliadau	3 (50%)	3 (50%)	4 (67%)	2 (33%)	4 (67%)	2 (33%)	3 (60%)	2 (40%)	5 (100%)	0 (0%)
Llywodraethu a Chydymffurfio	8 (80%)	2 (20%)	8 (80%)	2 (20%)	8 (80%)	2 (20%)	7 (87.5%)	1 (12.5%)	6 (75%)	2 (25%)
Adnoddau a Pherfformiad	5 (50%)	5 (50%)	5 (50%)	5 (50%)	5 (50%)	5 (50%)	4 (44%)	5 (56%)	3 (43%)	4 (57%)

Tabl 1:1 y Senedd, y Cyngor, y Weithrediaeth a'r Cyd-bwyllgorau Uwch yn ôl rhyw'r aelodau.

2. Data am y staff presennol

2.1. Staff

Ar 1 Awst 2025, cyfanswm nifer y bobl a oedd yn cael eu cyflogi yn y Brifysgol oedd 1,808 (data cyfrif pennau). Mae hwn yn ostyngiad (4.7%) o'i gymharu â'r data cyffelyb ar gyfer 2023-24, pan oedd 1,898 o staff.

Y cyfrif cyfwerth ag amser llawn (CALI) ar 1 Awst 2025 oedd 1,274. Mae hyn yn ostyngiad o 7.5% o'i gymharu â data cymharol 2023-24 gyda CALI o 1,377 a CALI o 1,416 yn 2022-23.

Yn 2024-25, roedd gan 47.1% o staff gontractau amser llawn (48.6% yn 2023-24; 48.0% yn 2022-23) ac roedd 52.9% o'r staff yn gweithio contractau rhan-amser (51.4% yn 2023-24; 52.0% yn 2022-23).


2.2 Rhyw

Y dadansoddiad o sefyllfa'r staff yn ôl rhyw yn 2024-25 oedd 999 o fenywod (55.3%) a 809 o wrywod (44.7%). Yn 2024-25 cafwyd gostyngiad yng nghyfanswm nifer y staff (-4.7%), gyda gostyngiad canrannol uwch mewn staff gwrywaidd (-7.4%) o'i gymharu â staff benywaidd (2.4%).

Mae graff 2.2.a isod yn dangos tuedd gymharol sefydlog yn y dadansoddiad o staff yn ôl rhyw dros y pum mlynedd diwethaf.

Nifer	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Benywod	1,066 (53.8%)	1,084 (54.4%)	1,049 (53.8%)	1,023 (53.9%)	999 (55.3%)
Gwrywod	916 (46.2%)	910 (45.6%)	901 (46.2%)	875 (46.1%)	809 (44.7%)
Cyfanswm	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.2.a Nifer y staff yn ôl rhyw.



Graff 2.2.a Nifer y staff yn ôl rhyw o 31.07.2024 yn dyddio'n ôl i 31.07.2020.


Staff rhan-amser (RhA) a llawn-amser (LIA)

Gostyngodd canran y staff benywaidd ar gontractau amser-llawn ychydig i 38.3% o 39.7% (yn 2023-24) gyda'r mwyafrif o hyd yn gweithio'n rhan-amser 61.7%, o'i chymharu â 60.3% (yn 2023-24). Mae canran y staff gwrywaidd ar gontractau amser-llawn yn dal i ostwng o flwyddyn i flwyddyn, ond mae'n dal i fod y mwyafrif, sef 58.7%, wedi gostwng o 60.1% (yn 2023-24). Gyda staff gwrywaidd ar gontractau rhan-amser yn cynyddu i 41.3% o 39.9% (2023-24).

Mewn cymhariaeth, mae'r sector AU yn dangos bod staff benywaidd wedi'u rhannu (LIA 62%, RhA 38%), a Gwrywod wedi'u rhannu (LIA 76%, RhA 24%).

Staff LIA a RhA (yn ôl y cyfrif pennau)									
		2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Benywod	LIA	46.0%	44.6%	35.1%	36.1%	38.7%	38.4%	39.7%	38.3%
	RhA	54.0%	55.4%	64.9%	63.9%	61.3%	61.6%	60.3%	61.7%
Gwrywod	LIA	69.4%	71.1%	65.3%	62.7%	62.1%	60.3%	60.1%	58.7%
	RhA	30.6%	28.9%	34.7%	37.3%	37.9%	39.7%	39.9%	41.3%
Pawb	LIA	57.4%	57.4%	48.4%	47.9%	48.9%	48.0%	48.6%	47.1%
	RhA	42.6%	42.6%	51.6%	52.1%	51.1%	52.0%	51.4%	52.9%

Tabl 2.2.b Nifer y staff yn ôl Rhyw ar gontractau LIA a RhA.



Graff 2.2.b Staff ar gontractau RhA a LIA yn ôl rhyw

Mae cynnydd y staff RhA gwrywaidd yn dangos amrywiadau ar draws pob teulu swyddi, ond mae cynnydd amlwg yn nifer y staff rhan-amser gwrywaidd yn y 'Gweinyddu, Rheoli a Phroffesiynol' a'r 'Academaidd, Dysgu ac Ysgolheictod'. Mae'r rhaniad hefyd yn adlewyrchiad cadarnhaol o ymagwedd y brifysgol at weithio hyblyg, lle mae gan staff hyder wrth ystyried eu dewisiadau pan fydd amgylchiadau gwaith a phersonol yn newid.

2.3 Anabledd

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi'i hachredu fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, Lefel 2, ac rydym yn parhau i ddilyn arfer da wrth gefnogi ein staff i nodi addasiadau rhesymol drwy Asesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos, atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol a chyfeirio at ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP).

Canran y staff oedd wedi datgan 'nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu' yn 2024-25 oedd 12.1% (o'i chymharu â 10.5% yn 2023-24; 9.6% yn 2022-23, 9.3% yn 2021-22). Mae hyn yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd y sector o'i chymharu â ffigur meincnodi AUYmlaen ar gyfer y DU yn 2023-24: 7.2%, ac yng Nghymru ar gyfer 2023-24: 8.5%).

Datgelu Anabledd	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Nam, cyflwr iechyd na gwahaniaeth dysgu	159 (8.3%)	180 (9.1%)	186 (9.3%)	188 (9.6%)	199 (10.5%)	218 (12.1%)
Heb nam, cyflwr iechyd na gwahaniaeth dysgu	486 (25.4%)	547 (27.6%)	660 (33.1%)	694 (35.6%)	695 (36.6%)	687 (38.0%)
Dewis peidio â dweud	9 (0.5%)	9 (0.5%)	11 (0.6%)	11 (0.6%)	10 (0.5%)	18 (1.0%)
Anhysbys / Heb ei ddatgan	1,258 (65.8%)	1,245 (62.8%)	1,137 (57%)	1,057 (54.2%)	994 (52.4%)	885 (48.9%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.3.a Set Ddata: Cyfrif Pennau Adnoddau Dynol 31.07.2025 - Staff yn datgelu anabledd dros amser

Yn 2024-25, datganodd 38.0% o staff 'Dim nam, cyflwr iechyd na gwahaniaeth dysgu', sef cynnydd ar y 36.6% yn 2023-24. 1.0% o gyfanswm y staff a ddiiodd y blwch i beidio â rhoi'r wybodaeth (0.5% yn 2023-24). Nid atebwyd y cwestiwn o gwbl gan 48.9% o'n staff (yn 2023-24) o'i chymharu â 52.4% yn 2023-24.

Y ddau fath o nam a ddatgelwyd amlaf oedd 'Gwahaniaeth dysgu fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D' (3.2%) a 'Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor fel canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon neu epilepsi'. (2.8%).

O'r staff a ddatganodd fod ganddynt 'nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu', roedd 58.7% yn gweithio'n llawn-amser a 41.3% yn gweithio'n rhan-amser. Wrth reoli am 'ryw', mae 62.4% o wrywod (66% yn 2023-24) sy'n datgelu 'nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu' yn gweithio'n llawn amser, o'i gymharu â 56% o fenywod (54% yn 2023-24) yn gweithio'n llawn amser.

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Llawm-amser (LIA)					
Benywod	55	57	60	67	70
Gwrywod	56	51	52	55	58
Cyfanswm LIA	111	108	112	122	128
Rhan-amser (RhA)					
Benywod	49	51	52	58	55
Gwrywod	29	33	32	28	35
Cyfanswm RhA	78	82	84	86	90
Cyfanswm	180	186	188	199	218

Tabl 2.3.b Nifer y staff sydd wedi datgan anabledd yn ôl rhyw a math o gcontract.

Mae'n parhau i fod yn galonogol gweld cynnydd yn nifer y staff sy'n datgan 'nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu', yn enwedig i staff LIA – gyda chymorth iechyd galwedigaethol ar gael ac ymrwymiad i addasiadau rhesymol i arferion gwaith a'r amgylchedd.

Mae datgelu anabledd yn rhan o'n data monitro dewisol ar amrywioldeb y staff. Mae'r holl staff yn derbyn negeseuon atgoffa rheolaidd i sicrhau bod eu data personol yn gyfredol.

2.4. Ethnigrwydd

Yn 2024-25, roedd y staff a oedd wedi datgan eu bod o Leiafrifoedd Ethnig yn sefyll ar 6.9% o gyfanswm y gweithlu (6.3% yn 2023-24; 6.0% yn 2022-23, a 6.1% yn 2021-22), sy'n dangos bod y staff o Leiafrifoedd Ethnig wedi cynyddu ryw fymryn bach.

Ethnigrwydd (cyfrif pennau)	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2023-24
Lleiafrifoedd Ethnig	104 (5.4%)	109 (5.5%)	122 (6.1%)	116 (6.0%)	120 (6.3%)	125 (6.9%)
Dewis peidio â dweud	76 (4.0%)	76 (3.8%)	68 (3.4%)	57 (2.9%)	55 (2.9%)	55 (3.0%)
Anhysbys / Heb ei ddatgan	2 (0.1%)	7 (0.4%)	3 (0.2%)	1 (0.1%)	1 (0.1%)	8 (0.4%)
Gwyn	1,731 (90.5%)	1,790 (90.3%)	1,801 (90.3%)	1,776 (91%)	1,722 (90.7%)	1,620 (89.6%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.4.a Data staff yn ôl 2 brif grŵp ethnig.

Mae Tabl 2.4.b isod yn dangos bod y cynnydd yn nifer y staff o Leiafrifoedd Ethnig o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y staff sy'n datgan eu bod o 'gefndir ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig' a 'Chefndir ethnig cymysg', gan nodi'r gostyngiad yn nifer y staff sy'n datgan eu bod o 'Gefndir Ethnig Du neu Ddu Prydeinig' a 'Chefndir Ethnig Arall. Mae data sylfaenol yn dangos bod y cynnydd yn nifer y staff sy'n datgan eu bod o gefndir ethnig 'Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig' mewn teuluoedd swyddi 'Ymchwil Academiaidd', 'Academiaidd, Addysgu ac Ysgolheictod' a 'Gwasanaethau'r Campws' a staff o 'Gefndir Ethnig Cymysg' mewn teuluoedd swyddi 'Gweinyddu, Rheoli a Phroffesiynol' a 'Gwasanaethau'r Campws'.

Ethnigrwydd	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Asiaidd	50 (2.6%)	48 (2.4%)	58 (2.9%)	53 (2.7%)	52 (2.7%)	61 (3.4%)
Du	13 (0.7%)	15 (0.8%)	16 (0.8%)	18 (0.9%)	25 (1.3%)	18 (1.0%)
Cymysg	17 (0.9%)	18 (0.9%)	18 (0.9%)	13 (0.7%)	14 (0.7%)	20 (1.1%)
Arall	24 (1.3%)	28 (1.4%)	30 (1.5%)	32 (1.6%)	29 (1.5%)	26 (1.4%)
Dewis peidio â dweud	76 (4.0%)	76 (3.8%)	68 (3.4%)	57 (2.9%)	55 (2.9%)	55 (3.0%)
Anhysbys / Heb ei ddatgan	2 (0.2%)	7 (0.4%)	3 (0.2%)	1 (0.1%)	1 (0.1%)	8 (0.4%)
Gwyn	1,731 (90.5%)	1,790 (90.3%)	1,801 (90.3%)	1,776 (91.2%)	1,722 (90.7%)	1,620 (89.6%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.4.b Data staff yn ôl 5 prif grŵp ethnig.

Mae tabl 2.4.c isod yn dangos bod y ffigur hwn yn isel o'i gymharu â chyfartaledd y DU a Chymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan AU Ymlaen yn *Equality in higher education: statistical reports 2024* (yn cyfuno ffigurau y DU a'r tu allan i'r DU).

	% o staff yn datgan eu bod o Leiafrifoedd Ethnig
Prifysgol Aberystwyth	6.9%
Addysg Uwch (Cymru)	10.5%
Addysg Uwch (y Deyrnas Unedig)	17.5%

Tabl 2.4.c AU Ymlaen: Equality in higher education: statistical reports 2024 (yn cyfuno ffigurau y DU a'r tu allan i'r DU).

Er hynny, mae'r ffigur yn llawer uwch na ffigur y boblogaeth sy'n gweithio, 1.5%, a'r boblogaeth yn gyffredinol, 3.7%, yng Ngheredigion sy'n datgan eu bod o Leiafrifoedd Ethnig, ar sail data Cyfrifiad 2021 a Llywodraeth Cymru, Arolwg Llafurlu Lleol 2022/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ethnigrwydd fesul awdurdod lleol Cymru.

2.5. Cenedligrwydd

Gofynnir i staff ddatgan gwlad eu cenedligrwydd cyfreithiol at ddibenion adrodd HESA. Yn 2024-25, cyhoeddodd staff eu cenedligrwydd o blith ystod o 53 o wledydd (o'u cymharu â 51 o wledydd yn 2023-24; 53 o wledydd yn 2022-23). Y Deyrnas Unedig oedd y cenedligrwydd a roddwyd gan y staff yn bennaf (86.8%); rhoddir rhestr o'r lleill isod.

Cenedligrwydd	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Iwerddon	23	22	24	21	24
Yr Almaen	25	23	20	19	20
Yr Unol Daleithiau	14	14	20	20	19
Gwlad Pwyl	31	27	22	19	13
India	5	10	9	11	16
Sbaen	14	15	14	13	15
Yr Eidal	12	13	13	14	12
Nigeria	4	6	8	11	8
Yr Iseldiroedd	7	7	7	8	7
Ffrainc	11	10	9	7	7
Rwsia	3	3	5	6	7
Tsieina	6	6	4	6	6

Tabl 2.5.a Cenedligrwydd y staff.

Gwladwriaethau y mae llai na 0.2% aelod o'r staff yn hanu ohonynt (<0.2%): Awstralia, Bangladesh, Gwlad Belg; Bolivia, Brasil, Bwlgaria, Canada, Chile, Colombia, Cyprus, Y Weriniaeth Tsiec, yr Aifft, Estonia, y Ffindir; Ghana, Gwlad Groeg, Hwngari, Indonesia, Japan; Kenya, Kuwait, Latfia, Libanus, Lithwania, Morocco, Seland Newydd, Pacistan, Portiwgal, Rwmania, Slofacia, Slofenia, De Affrica, Sri Lanka, Sweden, y Swistir, Gwlad Thai, Trinidad a Tobago, Türkiye, Wcráin, Fietnam.

Cenedligrwydd	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Y tu allan i'r DU	208 (10.9%)	207 (10.4%)	235 (11.8%)	219 (11.2%)	219 (11.5%)	236 (13.1%)
Lleiafrifoedd Ethnig	53 (25.5%)	56 (27.1%)	68 (28.9%)	68 (31.1%)	73 (33.3%)	75 (31.8%)
Dewis peidio â dweud	15 (7.2%)	12 (5.8%)	13 (5.5%)	8 (3.7%)	7 (3.2%)	12 (5.1%)
Anhysbys / Heb ei ddatgan	1 (0.5%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	2 (1.3%)
Gwyn	139 (66.8%)	139 (67.1%)	154 (65.5%)	143 (65.3%)	139 (63.5%)	146 (61.9%)
Y Deyrnas Gyfunol	1,705 (89.1%)	1,772 (89.4%)	1,759 (88.2%)	1,731 (88.8%)	1,679 (88.5%)	1,569 (86.8%)
Lleiafrifoedd Ethnig	50 (2.9%)	52 (2.9%)	53 (3.0%)	47 (2.7%)	47 (2.8%)	50 (3.2%)
Dewis peidio â dweud	62 (3.6%)	64 (3.6%)	56 (3.2%)	50 (2.9%)	48 (2.9%)	43 (2.7%)
Anhysbys / Heb ei ddatgan	0 (0.0%)	4 (0.2%)	2 (0.1%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	2 (0.1%)
Gwyn	1,592 (93.4%)	1,651 (93.2%)	1,647 (93.6%)	1,633 (94.3%)	1,583 (94.3%)	1,474 (93.9%)
Anhysbys / Heb ei ddatgan	0 (0.0%)	3 (0.2%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	3 (0.2%)
Lleiafrifoedd Ethnig	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)

Dewis peidio â dweud	0 (0.0%)	1 (33.3%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)
Anhysbys / Heb ei ddatgan	0 (0.0%)	2 (66.7%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	3 (100%)
Gwyn	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)	0 (0.0%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.5.b Cenedligrwydd staff gyda Grŵp Ethnig.

Mae staff sydd wedi datgan cenedligrwydd o'r tu allan i'r DU wedi cynyddu mewn niferoedd, gan dyfu i 13.1% o'r holl staff (o 11.5% yn 2023-24) - gyda'r cynnydd yn dod ar draws grwpiau ethnig. O'i gymharu â'r sector AU, mae gennym gynrychiolaeth is o staff o'r tu allan i'r DU, lle mae canran sector AU Cymru yn 14.4% a chanran Sector Addysg Uwch y DU yn 23.9%.

2.6. Crefydd neu Gred

Crefydd neu Gred	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Bwdhaidd	6 (0.3%)	8 (0.4%)	10 (0.5%)	14 (0.7%)	18 (0.9%)	18 (1.0%)
Cristion	259 (13.5%)	298 (15.0%)	318 (15.9%)	342 (17.5%)	463 (24.4%)	467 (25.8%)
Hindŵaidd	8 (0.4%)	8 (0.4%)	7 (0.4%)	5 (0.3%)	7 (0.4%)	12 (0.7%)
Iddewig	2 (0.1%)	2 (0.1%)	3 (0.2%)	4 (0.2%)	4 (0.2%)	4 (0.2%)
Mwslimaidd	6 (0.3%)	7 (0.4%)	16 (0.8%)	16 (0.8%)	13 (0.7%)	17 (0.9%)
Heb Grefydd na Chred	383 (20.0%)	465 (23.5%)	538 (27.0%)	569 (29.2%)	716 (37.7%)	729 (40.3%)
Crefydd neu Gred Arall	32 (1.7%)	33 (1.7%)	45 (2.3%)	44 (2.3%)	52 (2.7%)	54 (3.0%)
Dewis peidio â dweud	72 (3.8%)	84 (4.2%)	97 (4.9%)	104 (5.3%)	189 (10.0%)	208 (11.5%)
Sikh	0 (0%)	1 (0.1%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)	2 (0.1%)
Ysbrydol	14 (0.7%)	17 (0.9%)	13 (0.7%)	12 (0.6%)	8 (0.4%)	7 (0.4%)
Anhysbys / Heb ei ddatgan	1,131 (59.1%)	1,059 (53.4%)	947 (47.5%)	840 (43.1%)	428 (22.6%)	290 (16.0%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.6.a Staff sy'n datgan crefydd neu gred.

Mae datgelu eich 'crefydd neu gred' yn ddata amrywioldeb dewisol ar gyfer aelodau staff, fodd bynnag, mae'n braf gweld nifer y categori 'Anhysbys/ Heb ei ddatgan' yn parhau i ostwng i 16.0% (o 22.6% yn 2023-24; 43.1% yn 2022-23). Staff sy'n datgelu 'Heb grefydd na chred' yw'r ganran uchaf, sef 40.3% (o 37.7% yn 2023-24; 29.2% yn 2022-23).

Mae 72.5% (67.5% 2023-24; 51.6% 2022-23) o'n staff wedi datgan crefydd neu gred (gan gynnwys dim crefydd/cred) - mae hyn yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol y DU ar gyfer y sector addysg uwch, sef 64.8%.

Yn 2021, nododd 43.0% o drigolion Ceredigion "Dim crefydd", o'u cymharu â 30.7% yn 2011. Y cynnydd hwnnw, sef 12.3%, oedd y cynnydd mwyaf o'r holl grwpiau crefyddol bras yng Ngheredigion.

2.7 Cyfeiriadedd rhywiol

Cyfeiriadedd Rhywiol	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Deurywiol	21 (1.1%)	39 (2.0%)	51 (2.6%)	47 (2.4%)	59 (3.1%)	69 (3.8%)
Dyn hoyw	20 (1.0%)	21 (1.1%)	22 (1.1%)	23 (1.2%)	28 (1.5%)	27 (1.5%)
Menyw hoyw / lesbiaidd	13 (0.7%)	14 (0.7%)	19 (1.0%)	18 (0.9%)	18 (0.9%)	22 (1.2%)

Heterorywiol	612 (32.0%)	708 (35.7%)	798 (40.0%)	854 (43.8%)	1,104 (58.2%)	1,127 (62.3%)
Arall	15 (0.8%)	20 (1.0%)	25 (1.3%)	22 (1.1%)	23 (1.2%)	23 (1.3%)
Dewis peidio â dweud	93 (4.9%)	107 (5.4%)	119 (6.0%)	136 (7.0%)	236 (12.4%)	251 (13.9%)
Anhysbys	1,139 (59.5%)	1,073 (54.1%)	960 (48.1%)	850 (43.6%)	430 (22.7%)	289 (16.0%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.7.a Staff yn datgan cyfeiriadedd rhywiol

Mae datgelu eich 'cyfeiriadedd rhywiol' yn ddata amrywioldeb dewisol ar gyfer aelodau staff, fodd bynnag, mae'n braf gweld nifer y categori 'Anhysbys/ Heb ei ddatgan' yn gostwng i 16.0% (o 22.7% yn 2023-24; 43.6% yn 2022-23).

Y staff sy'n datgan mai heterorywiol yw eu cyfeiriadedd rhywiol yw'r grŵp mwyaf yn y Brifysgol, sef 62.3%, cynnydd ers y 58.2% yn 2023-24 (43.8% yn 2022-23), ac, ar ôl hynny, aelodau o staff sy'n datgan mai deurywiol (3.8%) a dyn hoyw (1.5%) yw eu cyfeiriadedd rhywiol. Er bod nifer y staff sydd wedi datgan 'Anhysbys/ Heb ei ddatgan' wedi gostwng, yn y flwyddyn flaenorol dim ond cynnydd ymylol a welwyd o ran y rhai sy'n 'Well ganddynt beidio â dweud', sef 13.9% (o 12.4% yn 2023-24).

Mae 70.1% (64.9% yn 2023-24; 49.4% yn 2022-23) o'n staff wedi datgan eu cyfeiriadedd rhywiol - mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd Prydeinig ar gyfer y sector addysg uwch, sef 66.3%. Mae'r staff sydd wedi datgan LHD+ fel eu cyfeiriadedd rhywiol wedi cynyddu i 7.8% (o 6.7% yn 2023-24; 5.6% yn 2022-23) sy'n uwch na'r cyfartaledd AU cenedlaethol, sef 6.1%.

O safbwynt y boblogaeth LHD+, Ceredigion sydd â'r ganran fwyaf ond un o awdurdodau lleol Cymru, 4.9%, y tu ôl i Gaerdydd (5.3%) [Cyfrifiad 2021].

2.8 Ailbennu rhywedd

Yn 2024-25 mae 88.3% (86.7% yn 2023-24; 81.4% yn 2022-23) o'n staff wedi datgan nad yw eu hunaniaeth rhywedd wedi newid ers ei phennu ar adeg eu. Mae'r rhai y mae eu 'hunaniaeth rhywedd' wedi newid ers ei phennu ar adeg eu genedigaeth ar 1.3% (o'i gymharu â 0.8% yn 2023-24, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y sector AU, sef 0.4%).


Hunaniaeth Rhywedd	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Gwell gennyf beidio â dweud a yw fy hunaniaeth rhywedd wedi newid	50 (2.6%)	62 (3.1%)	60 (3.0%)	57 (2.9%)	83 (4.4%)	99 (5.5%)
Mae fy hunaniaeth rhywedd wedi newid ers iddi gael ei phennu ar adeg fy genedigaeth	7 (0.4%)	13 (0.7%)	15 (0.8%)	16 (0.8%)	16 (0.8%)	24 (1.3%)
Nid yw fy hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid ers iddi gael ei phennu ar adeg fy genedigaeth	1,408 (73.6%)	1,495 (75.4%)	1,567 (78.6%)	1,587 (81.4%)	1,645 (86.7%)	1,596 (88.3%)
Anhysbys	448 (23.4%)	412 (20.8%)	352 (17.7%)	290 (14.9%)	154 (8.1%)	89 (4.9%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

2.9. Oedran

Proffil oedran yr holl staff	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
<21	18 (0.9%)	37 (1.9%)	27 (1.4%)	34 (1.7%)	41 (2.2%)	47 (2.6%)
21-30	261 (13.6%)	294 (14.8%)	336 (16.9%)	292 (15.0%)	254 (13.4%)	249 (13.8%)
31-40	391 (20.4%)	373 (18.8%)	368 (18.5%)	363 (18.6%)	361 (19.0%)	337 (18.6%)
41-50	477 (24.9%)	518 (23.6%)	531 (23.5%)	523 (23.9%)	456 (24.0%)	419 (23.2%)
51-60	518 (27.1%)	541 (27.3%)	531 (26.6%)	523 (26.8%)	509 (26.8%)	492 (27.2%)
61-70	204 (10.7%)	221 (11.2%)	219 (11.0%)	229 (11.7%)	233 (12.3%)	221 (12.2%)
71+	44 (2.3%)	49 (2.5%)	44 (2.2%)	42 (2.2%)	44 (2.3%)	43 (2.4%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.9.a Staff yn ôl ystod oedran

Mae gostyngiad yng nghyfanswm y staff wedi gweld gostyngiad yn nifer y staff ym mhob ystod oedran, ar wahân i'r staff 'o dan 21 oed', lle y bu cynnydd bychan. Mae'r gyfran uchaf o staff (27.2%) yn parhau i fod yn yr ystod oedran '51-60'. Mae canran y staff sydd o dan 30 oed wedi cynyddu i 16.4% (o 15.5% yn 2023-24).



Graff 2.9.a Staff yn ôl ystod oedran


Mae Tabl 2.9.b isod yn dangos cyfran y staff gwrywaidd a benywaidd ar draws yr ystod o oeddrannau. Mae'r proffil oedran yn ôl 'rhyw' gyfer 2024-25 yn dangos bod mwy o fenywod ym mhob categori oedran ar wahân i'r rhai dan 21 oed - a'r unig ystod oedran lle mae niferoedd y menywod a'r gwrywod wedi cynyddu.

Mae cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn yn dangos bod y gostyngiad cyffredinol yn nifer y cydweithwyr benywaidd yn ymddangos yn bennaf yn yr ystod oedran '41-50' (n= -16) ac ar gyfer gwrywod yn bennaf yn yr ystod oedran '31-40' (n= -41) a '41-50' (n= -45). Wrth edrych yn fanylach at yr ystod oedran '41-50' mae'r data hwn yn gweld gostyngiad yn nifer y staff benywaidd yn y 'Gweinyddu, Rheoli a Phroffesiynol'; yn yr un modd ar gyfer staff gwrywaidd yn ystod oedran '31-40' yn Addysgu ac Ymchwil Academaidd.

	2022-23	2023-24	2024-25
--	---------	---------	---------

Proffil Oedran	Benywod	Gwrywod	Benywod	Gwrywod	Benywod	Gwrywod
<21	12 (0.6%)	22 (1.1%)	15 (0.8%)	26 (1.4%)	19 (1.1%)	28 (1.5%)
21-30	157 (8.1%)	135 (6.9%)	131 (6.9%)	123 (6.5%)	131 (7.2%)	118 (6.5%)
31-40	198 (10.2%)	165 (8.5%)	192 (10.1%)	169 (8.9%)	189 (10.5%)	148 (8.2%)
41-50	255 (13.1%)	212 (10.9%)	248 (13.1%)	208 (11.0%)	232 (12.8%)	187 (10.3%)
51-60	291 (14.9%)	232 (11.9%)	284 (15.0%)	225 (11.9%)	277 (15.3%)	215 (11.9%)
61-70	114 (5.8%)	115 (5.9%)	127 (6.7%)	106 (5.6%)	125 (6.9%)	96 (5.3%)
71+	22 (1.1%)	20 (1.0%)	26 (1.4%)	18 (0.9%)	26 (1.4%)	17 (0.9%)
Cyfanswm	1,049 (53.8%)	901 (46.2%)	1,023 (53.9%)	875 (46.1%)	999 (55.3%)	809 (44.7%)

Tabl 2.9.b Proffil oedran yn ôl rhyw



Graff 2.9.a Ystod oedran yn ôl rhyw

2.10 Beichiogrwydd a Mamolaeth

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
Absenoldeb Mabwysiadu	0	0	0	1	1
Absenoldeb Mamolaeth	30	37	57	39	32
Absenoldeb Tadolaeth	15	7	9	17	11
Absenoldeb Rhiant	1	1	2	3	3
Aelodau staff a gymerodd absenoldeb	46	45	68	60	47

Tabl 2.11 Aelodau o staff a gymerodd Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth / Mabwysiadu / Rhiant

Cymerodd 47 aelod o staff fath o absenoldeb teuluol yn ystod 2024-25, gostyngiad o 21.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

2.11 Y Gymraeg

Mae canran y staff sy'n nodi bod ganddynt gymhwysedd yn y Gymraeg (llafar) ar y lefelau uchaf, sef B1 i C2, wedi cynyddu rhywfaint i 34.5% yn 2024-25 (o'i chymharu â 33.9% yn 2023-24). Yn benodol, mae'r lefelau hyfedredd yn y Gymraeg (llafar) ar y lefelau uchaf, sef C1 a C2, wedi gweld cyfran y staff yn cynyddu i 20.9% (o 19.9% yn 2023-24).

Lefelau'r Gymraeg	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25
A0 LLAFAR	662 (35.2%)	651 (33.3%)	672 (30.9%)	669 (33.8%)	644 (33.7%)	617 (34.1%)
A1 LLAFAR	338 (15.0%)	344 (17.2%)	364 (17.3%)	362 (18.7%)	357 (18.6%)	336 (18.6%)
A2 LLAFAR	144 (3.1%)	150 (7.0%)	166 (7.3%)	176 (8.9%)	169 (9.0%)	161 (8.9%)
B1 LLAFAR	153 (9.4%)	154 (7.3%)	144 (6.7%)	142 (7.1%)	130 (6.6%)	118 (6.5%)
B2 LLAFAR	165 (10.7%)	163 (8.0%)	152 (7.5%)	153 (7.9%)	141 (7.4%)	127 (7.0%)
C1 LLAFAR	91 (3.6%)	109 (4.5%)	108 (4.7%)	115 (5.7%)	109 (5.6%)	109 (6.0%)
C2 LLAFAR	250 (8.6%)	263 (11.6%)	268 (12.4%)	277 (13.9%)	277 14.3%	270 (14.9%)
Dim data	110 (14.4%)	147 (11.2%)	119 (13.3%)	55 (4.0%)	71 (4.8%)	70 (3.9%)
Cyfanswm	1,913	1,982	1,994	1,950	1,898	1,808

Tabl 2.10 Lefelau'r Gymraeg i'r holl staff

Mae rhagor o fanylion am y Lefelau Iaith y cyfeirir atynt uchod i'w gweld yn <https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/employment/welsh-language/>

Mae rhagor o wybodaeth am bolisïau a strategaethau Prifysgol Aberystwyth ar hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg ar gael yn <https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/>

3. Staff - Denu a Dethol, Gwobrwyo a Chydnabod, a Hyfforddiant

Data am Ymgeiswyr o 1 Awst 2024 hyd at 31 Gorffennaf 2025

Mae system ar-lein PA yn cofnodi 1,106 o geisiadau am swyddi (ac eithrio GweithwyrAber). Mae'r rhain yn cynnwys y swyddi a hysbysebwyd yn fewnol ac yn allanol.

Blwyddyn	Ceisiadau	Swyddi gwag	Penodiadau
2024-2025	1,106	263	460
2023-2024	2,224	365	591
2022-2023	3,995	703	834
2021-2022	3,185	592	689
2020-2021	3,691	432	647

Tabl 3.1 Recriwtio staff - ceisiadau, penodiadau a swyddi gwag.

- Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law: 1,106 (gostyngiad o 1,118 cais, 50.3% ers 2023-24)
- Cyfanswm y swyddi gwag: 263 (gostyngiad o 102 swydd, 27.9% ers 2023-24)
 - Yn ystod 2024-25 cafwyd 4.2 cais ar gyfartaledd am bob swydd wag.
 - Yn ystod 2023-24 cafwyd 6.1 cais ar gyfartaledd am bob swydd wag.
 - Yn ystod 2022-23 cafwyd 5.6 cais ar gyfartaledd am bob swydd wag.
 - Yn ystod 2021-22 cafwyd 5.4 cais ar gyfartaledd am bob swydd wag.
 - Yn ystod 2020-21 cafwyd 8.5 cais ar gyfartaledd am bob swydd wag.
- Cyfanswm y penodiadau: 460 (gostyngiad o 131 penodiad, 22.2% ers 2023-24)
- Cyfanswm nifer y penodiadau: mae'r 460 yn 2024-25 wedi'i rannu'n 192 penodiad mewnol (41.7%) a 268 penodiad allanol (58.3%), o'i gymharu â 591 o benodiadau yn 2023-24, sef 241 penodiad mewnol (40.8%) a 350 penodiad allanol (59.2%).

Mae'n werth nodi bod niferoedd y bobl a benodir yn uwch na nifer y swyddi gwag oherwydd bod sawl swydd i'w llenwi mewn rhai meysydd (e.e. goruchwylwyr arholiadau [27], Tiwtoriaid Dosbarth [43], Glanhawyr [88], Graddedigion dan hyfforddiant / Interniaid Llwybrau Proffesiynol [43]).

Nid yw'r rheolwyr recriwtio yn cael gwybod y data amrywioldeb felly ni fyddent yn rhan o unrhyw benderfyniadau ar ddethol ymgeiswyr cyn y cyfweiliadau. Byddai Adnoddau Dynol a'r timau penodi priodol yn mynd ati'n rhagweithiol i weithio gydag ymgeiswyr i wneud unrhyw addasiadau rhesymol pan y'u gwahoddir i gyfweiliad.

3.1 Rhyw yr ymgeiswyr:

Rhyw	Ymgeiswyr					
	2024-25		2023-24		Amrywiant	
Benywod	586	53.0%	1,016	45.7%	-430	-42.3%
Gwrywod	510	46.1%	1,205	54.2%	-695	-57.7%
Anhysbys	10	0.9%	3	0.1%		
Cyfanswm	1,106		2,224		1,118	-50.3%

Tabl 3.1.a Ceisiadau am swyddi gwag yn ôl rhyw a'r flwyddyn (niferoedd a chanrannau)

Rhyw yr ymgeiswyr a benodwyd:

Rhyw	Penodiadau					
	2024-25		2023-24		Amrywiant	
Benywod	274	59.6%	316	54.4%	-42	-13.3%
Gwrywod	183	39.8%	273	45.1%	-90	-33.0%
Anhysbys	3	0.7%	2	0.5%	-2	
Cyfanswm	460		591		-131	-22.2%

Tabl 3.1.b Penodiadau ar gyfer swyddi gwag yn ôl rhyw a'r flwyddyn (niferoedd a chanrannau)

- O bawb a wnaeth gais am swyddi gwag yn y brifysgol, gwelsom ganran uwch o fenywod (53.0%), o'u cymharu â gwrywod (46.1%). O ran nifer y ceisiadau, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y ceisiadau gan fenywod a chan wrywod, gyda gostyngiad canrannol uwch gan wrywod.
- O'r holl rai a benodwyd, menywod oedd 59.6%, a 39.8% yn wrywod. O ran nifer y penodiadau, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y penodiadau o ran menywod a gwrywod, gyda gostyngiad canrannol uwch o ran gwrywod.
- O'r menywod a wnaeth gais am swydd wag (586), ac a benodwyd (274), mae'r gyfradd lwyddo'n uwch, sef 46.8%, o'i chymharu â chyfradd lwyddiant y gwrywod, sef 35.9%, lle y gwnaeth 510 gais, ac fe benodwyd 183. Mae ymgeiswyr benywaidd a gwrywaidd yn dangos cyfradd llwyddiant well ers 2023-24, lle roeddent yn 31.1% a 22.7% yn y drefn honno.

Gwnaeth ein **Cynllun gweithredu Athena Swan** dargedu cynyddu cynrychiolaeth menywod mewn rolau uwch yn y Brifysgol, gan ganolbwyntio'n benodol ar rolau academiaidd uwch.

- Wrth benodi i'n swyddi rheoli a swyddi ar lefelau uwch (gradd 7 ac uwch), roedd 50.5% (37% yn 2023-24; 44% yn 2022-23) o'n hymgeiswyr yn fenywod, ac roedd 65.7% (50.4% yn 2023-24; 54.1% yn 2022-23) o'n hymgeiswyr a benodwyd yn fenywod. Mae hyn yn dangos ymdrechion parhaus i ymdrin â'r cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn swyddi uwch yn y brifysgol.
- Wrth benodi i'n swyddi Academiaidd Uwch (Gradd 9 ac uwch), roedd 31.7% (36.9% yn 2023-24; 15% yn 2022-23) o'n hymgeiswyr yn fenywod, ac roedd 27.8% (41.8% yn 2023-24; 30% yn 2022-23) o'n hymgeiswyr a benodwyd yn fenywod. Mae'r gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr benywaidd a'r penodiadau benywaidd, yn dilyn twf o flwyddyn i flwyddyn yn flaenorol, yn gofyn am fonitro gofalus.

3.2 Ethnigrwydd

Ethnigrwydd	Ceisiadau				Penodiadau			
	2024-25 (niferoedd)	2024-25 (%)	2023-24 (niferoedd)	2023-24 (%)	2024-25 (niferoedd)	2024-25 (%)	2023-24 (niferoedd)	2023-24 (%)
Asiaidd	120	10.8%	447	20.1%	33	7.2%	26	4.4%
Du	63	5.7%	313	14.1%	12	2.6%	15	2.5%
Cymysg	37	3.3%	78	3.5%	12	2.6%	11	1.9%
Arall	20	1.8%	28	1.3%	7	1.5%	6	1.0%
Dewis peidio â dweud	33	3.0%	51	2.3%	17	3.7%	16	2.7%
Anhysbys / Heb ei ddatgan	19	1.7%	10	0.4%	6	1.4%	4	0.7%
Gwyn	814	73.6%	1,297	58.3%	373	81.1%	513	86.8%
Cyfanswm	1,106		2,224		460		591	

Tabl 3.2.a Ceisiadau a phenodiadau yn ôl Ethnigrwydd ar draws 5 prif gategori (niferoedd a chanrannau)

- Mae cynrychiolaeth o'r rhai a ymgeisiodd yn dangos bod 73.6% (58.3% yn 2023-24; 63.8% yn 2022-23) yn Wyn, ac, ar ôl hynny, 10.8% (20.1% yn 2023-24; 15.9% yn 2022-23) yn Asiaidd, a 5.7% (14.1% yn 2023-24; 10.3% yn 2022-23) yn Ddu.
- Mae cynrychiolaeth o'r rhai a benodwyd yn dangos bod 81.1% (86.8% yn 2023-24; 82.7% yn 2022-23) yn Wyn, ac, ar ôl hynny, 7.2% (4.4% yn 2023-24; 3.8% yn 2022-23) yn Asiaidd, a 2.6% (2.5% yn 2023-24 ac yn 2022-23) yn Ddu.

Mae ein **Cynllun gweithredu Siarter Cydraddoldeb Hil** yn targedu cynyddu cynrychiolaeth y staff o leiafrifoedd ethnig ar bob lefel yn y brifysgol, gan ganolbwyntio'n benodol ar rolau uwch yn y gwasanaethau proffesiynol.

- Mesur llwyddiant allweddol yw i gyfradd lwyddo ymgeiswyr o Leiafrifoedd Ethnig fod yn gyfartal ag ymgeiswyr gwyn erbyn Gorffennaf 2027, ac adrodd ar y gyfradd benodi ar draws 5 prif gategori grwpiau ethnig erbyn Gorffennaf 2027

Ethnigrwydd	Ceisiadau		Penodiadau		Cyfradd lwyddo	
	2024-25	2023-24	2024-25	2023-24	2024-25	2023-24
Asiaidd	120	447	33	26	27.5%	5.8%
Du	63	313	12	15	19%	4.8%
Cymysg	37	78	12	11	32.4%	14.1%
Arall	20	28	7	6	35%	21.4%
Dewis peidio â dweud	33	51	17	16	51.5%	31.4%
Anhysbys / Heb ei ddatgan	19	10	6	4	31.6%	40%
Gwyn	814	1,297	373	513	45.8%	39.6%
Cyfanswm	1,106	2,224	460	591	41.6%	26.6%

- Mae gan ymgeiswyr gwyn gyfradd lwyddo uwch o 45.8% (373 wedi'u penodi o'r 814 a ymgeisiodd), lle mae gan unigolion o Leiafrifoedd Ethnig gyfradd lwyddo o 26.7% (64 wedi'u penodi o'r 240 a ymgeisiodd). Amlygir hyn gan y ffaith mai 13.9% o ymgeiswyr o Leiafrifoedd Ethnig a gafodd eu penodi, er eu bod yn cyfrif am 21.7% o'r gronfa o ymgeiswyr.
- % o geisiadau gan academyddion o Leiafrifoedd Ethnig i gynyddu o 7.5% (2022-23) i 10% (2026-27)
 - Swyddi gwag academiaidd yn 2024-25 - ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig (22.7%); penodiadau (14.5%)
 - Swyddi gwag academiaidd uwch yn 2024-25 - ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig (16.7%); penodiadau (16.7%)

- Gwasanaethau Proffesiynol Uwch yn 2024-25 - ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig (21.2%); penodiadau (13.6%)

Mae data yn dangos bod cynnydd wedi'i gyflawni o ran cynyddu nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig, gyda'u cynrychiolaeth o fewn y gronfa benodi yn dilyn trywydd uwchlaw cynrychiolaeth y gweithlu.

3.3 Anabledd

Anabledd	Ymgeiswyr				Penodiadau			
	2024-25 (niferoedd)	2024-25 (%)	2023-24 (niferoedd)	2023-24 (%)	2024-25 (niferoedd)	2024-25 (%)	2023-24 (niferoedd)	2023-24 (%)
Nam, cyflwr iechyd neu wahaniaeth dysgu nas rhestrwyd	10	0.9%	12	0.5%	2	0.4%	4	0.7%
Dall neu â nam ar y golwg nad yw'n cael ei gywiro gan sbectol	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
Byddar neu â nam ar y clyw	2	0.2%	6	0.3%	2	0.4%	3	0.5%
Cyflwr datblygol sydd arnoch ers plentyndod sy'n effeithio ar eich sgiliau symudol, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, a lleferydd ac iaith	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
Gwahaniaeth dysgu megis dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D	34	3.1%	66	3.0%	14	3.0%	18	3.0%
Afiechyd neu gyflwr iechyd hirdymor megis canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon, neu epilepsi	5	0.5%	17	0.8%	2	0.4%	2	0.3%
Cyflwr, her, neu anhwylder iechyd meddwl, megis iselder, sgitsoffrenia neu orbrwyder	15	1.4%	24	1.1%	7	1.5%	9	1.5%
Dim nam, cyflwr iechyd na gwahaniaeth dysgu y gwyddys amdano	265	24.0%	559	25.1%	107	23.3%	187	31.6%
Nam corfforol (cyflwr sy'n cyfyngu'n sylweddol ar un neu ragor o weithgareddau corfforol sylfaenol megis cerdded, dringo grisiau, codi pethau neu gario)	7	0.6%	11	0.5%	1	0.2%	3	0.5%
Dewis peidio â dweud	30	2.7%	52	2.3%	11	2.4%	20	3.4%
